
| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PROSIECT CYFALAF TAI TREF YNYS MÔN** |
| **PWRPAS YR ARODDIAD:** | **GWYBODAETH YN UNOL A CHAIS GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **ARTHUR OWEN** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

Ym mis Medi 2009, cynigiodd LIC gynllun £8.738M i CSYM yn cychwyn ym mis Medi 2009 ac yn gorffen ym mis Mehefin 2013. Roedd hwn yn rhan o Raglen Gogledd Cymru a oedd werth £37M. Cymeradwywyd hwn gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2010 a dyma oedd y Strwythur Llywodraethiant:-




Dyma'r allbynnau sy'n gysylltiedig â'r gwariant hwn:-

| | Gwaith Gwella Ffisegol | Nifer y Swyddi gros a grewyd | Eiddo a adnewyddwyd neu a grëwyd | Swyddi a sicrhawyd | Mentrau y darparwyd ar eu cyfer | Tir a ddatblygwyd | Nifer y bobl ddefnyddiodd y gwasanaethau | Sefydliadau a gefnogwyd yn ariannol | Buddsoddiad a ddenwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targed Newydd** | 3 | 10 | 1900 | 40 | 6 | 0.016ha = 160m2 | 1000 | 2 | £500,000 |
| **Yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd** | **3** | **14** | **3039** | **56** | **10** | **268** | **3887** | **1** | **£7,000** |
| **Cyfanswm Posibl** | 3 | 38 | 1957 | 38 | 10 | 928 | 0 | 1 | £871,875.00 |

Yn ystod oes y prosiect, mae LIC wedi ailbroffilio ac ymestyn ei gynllun £37M ac o'r herwydd, mae CSYM hefyd wedi cael nifer o gyfleoedd i ailbroffilio ac ymestyn.

Ym mis Mawrth 2011, cafodd CSYM gyfle i ailbroffilio elfen Ynys Môn o Gynllun Gogledd Cymru, yr un modd â'r holl awdurdodau eraill gan ddiwygio dyddiad cwblhau CSYM o fis Mehefin 2013 i fis Medi 2013 er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd gyda hawliadau ac ati.

Mae'r drefn gyllido'n gymhleth ac yn cynnwys :-

| **Cyllideb** | 3 Tref (£k) | Cronfa Gyffredinol (£k) | MTT(£k) |
|---|---|---|---|
| ERDF | 1763 Caergybi<br>1865 Llangefni<br>1460 Amlwch<br>830.525 RhP a Reveniw | 1770 | |
| CSYM | | | 175 |
| Cadw | | | 60 |
| HLF | | 874 | 128 |
| PEG | | 175 | 55 |
| Cyfanswm | 5918.525 | | |
| | **£8737.525** | | |
| | | **£3237** | |

Oherwydd i'r prosiect gael ei ailbroffilio wedi iddo gychwyn, bu modd iddo gyflawni a diwallu nifer o ofynion y cyrff cyllido cyn i'r gwariant gael ei awdurdodi.

Ym mis Ionawr 2012, achubodd CSYM ar gyfle arall i ailbroffilio. O'r herwydd, bu modd cyflawni'r isod:-

- Roedd allbynnau ar gyfer CSYM yn dibynnu'n bennaf ar grantiau gan y sector preifat. Roedd y sector preifat a'r cynnydd a wnaed yn arafach na'r disgwyl ac o'r herwydd,

roedd **amser ychwanegol i ganiatáu i'r prosiectau sector preifat dyfu yn hanfodol er mwyn sicrhau'r allbynnau.** Roedd ailbroffilio yn fodd i ni gyflawni'r hyn yr oeddem yn ei ddymuno.

- Mae cyflawni'r cynlluniau sector preifat a gadael iddynt ddatblygu wedi bod yn fodd i ni **ddenu cryn dipyn o arian sector preifat** yn ychwanegol at y cyllid cyfatebol.

- Oni fyddai'n ailbroffilio hwn wedi cael ei ganiatáu, byddai wedi golygu dwyn rhai o'r prosiectau sector preifat i ben a sefydlu yn eu lle brosiectau cyhoeddus na fyddent efallai, wedi cyflawni'r allbynnau a nodir uchod.

- Caniataodd yr ailbroffilio hefyd **i'r arian Rheoli Prosiect a oedd dros ben gael ei ailddyrannu ar gyfer y cynlluniau eu hunain** yn hytrach nag ar gyfer eu rheoli ac ystyriwyd bod hynny'n well defnydd o'r arian.

- **Gwneud y mwyaf o'r potensial i ddenu cyllid pellach** – Petai cyllid ychwanegol ar gael oddeutu 2014/15, byddai CSYM, oherwydd ei fod wedi ymestyn ei raglen yr un modd ag awdurdodau eraill, mewn sefyllfa i gymryd rhywfaint o'r cyllid ychwanegol.

- **Cynnal momentwm** – Mae'n bosibl fod cynlluniau LIC ac Ewropeaidd newydd ar y gorwel ac mae'n bosibl y gallai ymestyn y cynllun fod o fudd i brosiectau oherwydd byddai'n sicrhau parhad.

Felly, deuir i'r canlyniad nad llithriad oedd hyn ond, yn hytrach, ailbroffilio a oedd wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.